IRM CYMRU | independent review mechanism | mecanwaith adolygiad annibynnol

# IRM Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2015-2016



## Rhagymadrodd

Daeth Rheoliadau Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Diwygio) Cymru 2010 i rym yn Ebrill 2010. Bu gwasanaeth IRM ar waith ers 2005 (a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru). Estynnodd rheoliadau 2010 gylch gwaith yr IRM i gynnwys maethu a gweithredwyd y gwasanaeth estynedig gan BAAF Cymru ar ran Llywodraeth Cymru tan 4 Medi 2015 pan gafodd gwaith BAAF ei ddirwyn i ben. Ers 14 Medi 2015 ymlaen mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru, sydd unwaith eto yn gweithredu'r gwasanaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y Mecanwaith Adolygiad Annibynnol (IRM) i gynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ac i annog mwy o bobl i ystyried maethu neu fabwysiadu rhai o'r plant hawsaf eu niweidio yn ein cymdeithas.

Pan fydd asiantaeth faethu neu fabwysiadu yn bwriadu (yn dilyn ystyriaeth gan ei phanel ei hun) peidio â chymeradwyo, neu ddarfod cymeradwyaeth rhieni maeth neu ddarpar rieni mabwysiadol neu newid telerau cymeradwyaeth gofalwyr maeth, mae hyn yn rhoi beth mae'r rheoliadau yn cyfeirio ato fel 'dyfarniad o gymhwyster' ac yn cynnig y cyfle i'r sefyllfa gael ei hadolygu gan banel IRM cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan yr asiantaeth.

Nid proses apelio yw'r IRM, a'r asiantaeth biau'r penderfyniad terfynol am addasrwydd neu addasrwydd parhaus neu, yn achos gofalwyr maeth, telerau eu cymeradwyaeth, ond mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth barn y panel IRM wrth wneud eu penderfyniad terfynol.

Y maes arall lle gall y panel IRM roi argymhelliad yw ar gyfer oedolion a gafodd eu mabwysiadu ar 30 Rhagfyr 2005 neu wedi hynny, neu ar gyfer perthynas drwy enedigaeth rhywun a gafodd ei fabwysiadu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Gall dau faes gael eu hystyried, sef

- Na fydd yr asiantaeth yn symud ymlaen â chais am ddatgelu gwybodaeth warchodedig, neu
- Y bydd yn datgelu'r wybodaeth yn erbyn ewyllys gwrthrych yr wybodaeth.

Nid yw'n syndod, o ystyried y cyfnod dan sylw, na chafwyd yr un cais o'r fath hyd yma.

Mae panelau IRM yn cynnwys pobl o restr ganolog. Mae gan y bobl hyn amrediad o brofiad personol a phroffesiynol. Bydd pob un wedi cael ei benodi i'r rhestr yn sgîl proses recriwtio a bydd tystlythyrau a gwiriadau DBS wedi cael eu cynnal. Rhoddir hyfforddiant blynyddol ac arfarniadau parhaus i aelodau panel.

## Datblygiadau yn 2015-16

Fel y nodwyd uchod, un newid sylweddol oedd i'r gwasanaeth gael ei gynnal gan Plant yng Nghymru. Cafodd y personél a fu'n gweithredu'r gwasanaeth pan oedd yn cael ei reoli gan BAAF eu cyflogi gan Plant yng Nghymru ac felly ni chollwyd yr arbenigedd mewn perthynas â'r gwasanaeth. Mae Jenny McMillan a Fiona Probert ill dwy yn gweithio 14 awr yr wythnos.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru o dan grant gan y Llywodraeth tan Fawrth 2017.

Mae'r mwyafrif o'r bobl a oedd ar y rhestr ganolog yn parhau i wasanaethu gyda'r contract newydd. Cafodd rhai aelodau eu colli a chynhaliwyd ymarfer recriwtio pwrpasol i sicrhau bod digon o gynrychiolaeth ar y rhestr ganolog. Ychwanegwyd 2 o bobl, un i ymgymryd â rôl cynghorydd panel neu weithiwr cymdeithasol a'r llall rôl gweithiwr cymdeithasol.

Cynhaliwyd diwrnod datblygu ar gyfer aelodau panel yn Nhachwedd 2015. Ffocws y diwrnod oedd materion iechyd ac ystyriaethau cyfreithiol. Caniataodd y drafodaeth gyfreithiol archwilio'r newidiadau allweddol a ddaw yn sgîl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a rôl yr IRM mewn perthynas â cheisiadau am ddatgelu. Trafododd ymgynghorydd meddygol y panel yr ystyriaethau allweddol mewn perthynas ag iechyd ymgeiswyr.

Cafodd newyddlen ei hanfon at yr holl aelodau panel yng Ngorffennaf 2015 a'r bwriad yw anfon honno dwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod aelodau panel yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gymaint â phosibl.

Gyda'r symudiad i Plant yng Nghymru, mae gwefan yr IRM wedi cael ei hadleoli ac mae adrannau wedi eu diweddaru wedi cael eu hychwanegu fel cwestiynau cyffredin. Mae'r diwygiadau ar fin cael eu cwblhau.

## Ceisiadau i'r IRM yn 2015-16

Derbyniodd yr IRM 5 cais yn 2015-2016

Daeth 4 o'r ceisiadau hyn oddi wrth ofalwyr maeth yr oedd yr asiantaeth 'o blaid eu dadgofrestru'


Daeth 1 oddi wrth ddarpar fabwysiadwr yr oedd yr asiantaeth 'o blaid peidio â'i gymeradwyo'


Dyma'r nifer isaf o geisiadau a gafwyd ers 2010. Ni wyddom am unrhyw reswm dros y lleihad hwn mewn ceisiadau.

Yn ystod y flwyddyn mae sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi cael eu cynnal yn Ne a Gogledd Cymru. Trefnwyd bod taflen sy’n cynnig ‘fersiwn symlach’ o broses yr IRM ar gael i ymgeiswyr ac asiantaethau ac mae adran cwestiynau cyffredin wedi cael ei hychwanegu at y wefan gyda’r nod o sicrhau bod gwybodaeth am yr IRM mor hygyrch â phosibl.

Wrth i’r asiantaeth sy’n cynnal yr IRM newid, anfonwyd tair set o ohebiaeth i roi gwybod i asiantaethau am y newid i’r manylion cysylltu. Derbyniwyd 4 o’r 5 cais yn ystod y flwyddyn pan oed y trefniant cynnal wedi symud i Plant yng Nghymru.

Gyda’r newid i’r asiantaeth sy’n cynnal yr IRM, mae’r wefan wedi cael ei newid ond mae’r wefan flaenorol wedi parhau’n weithredol er mwyn sicrhau y gallai ymgeiswyr posibl gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol yn ystod y cyfnod trosiannol.






Roedd yr holl geisiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn gymwys (dyma'r flwyddyn gyntaf i hynny ddigwydd). Roedd 1 a fethodd â chael ei wrando o fewn yr amserlen a gytunwyd. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd. Cafodd ei ohirio am 1 mis ar gais yr ymgeiswyr a hynny gyda chaniatâd yr asiantaeth. Mae 1 cais yn aros i gael ei adolygu.

**Lledaeniad daearyddol ymgeiswyr mewn ceisiadau**

Daeth pob un o'r ceisiadau a gafwyd oddi wrth ymgeiswyr sy'n preswylio yn Ne Cymru.

**Lledaeniad daearyddol darparwyr gwasanaethau maethu ac asiantaethau mabwysiadu**

| | |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | **1** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **1** |
| **Caerdydd** | **2** |
| **Casnewydd** | **1** |


Lle bo'r ymgeiswyr yn ofalwyr maeth gydag asiantaeth faethu annibynnol, y lleoliad yw hwnnw eu prif swyddfa at ddiben y ffigurau uchod, sy'n tueddu i olygu bod Caerdydd yn ôl pob golwg wedi ei gorgynrychioli.

**Anghenion Penodol**


Mae IRM Cymru yn sicrhau yn gynnar yn y broses adolygu ei fod yn ymwybodol o unrhyw anabledd neu nam sydd gan gynrychiolwyr yr ymgeiswyr neu'r asiantaeth y byddai angen eu

cymryd i ystyriaeth wrth drefnu panel. Ni chafwyd yr un cais yn ystod y flwyddyn am ystyriaeth o'r fath.
Ni chafwyd yr un cais yn ystod y flwyddyn i geisiadau gael eu gwrando drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Data Cymharol 2010-16





Er bod nifer fach o geisiadau ym mlwyddyn 6, hon oedd y flwyddyn gyntaf pan oedd pob un o'r ceisiadau a gafwyd yn gymwys i'w gwrando gan yr IRM. Mae un achos sydd eto i'w wrando yn y panel ond mae hwnnw'n gymwys.




Ymhen amser y bwriad yw terfynu cymeradwyaeth gofalwyr maeth sydd wedi dod y math mwyaf cyffredin o gais i'r IRM. Yn y flwyddyn ddiwethaf dyna oedd 4 o'r 5 achos.

**Lleoliad ymgeiswyr**




Yn 2015-16 daeth yr holl geisiadau o Dde Cymru.

**Lleoliad asiantaethau yn y 64 o geisiadau a dderbyniwyd**


| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 |
| Caerffili | 2 |
| Caerdydd | 13 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 |
| Ceredigion | 2 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Gwynedd | 1 |
| Merthyr Tudful | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 |
| Casnewydd | 3 |
| Sir Benfro | 1 |
| Powys | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 10 |
| Abertawe | 14 |
| Bro Morgannwg | 1 |
| Wrecsam | 2 |

**Statws ymgeiswyr**


Ar gyfer ethnigrwydd hysbys ymgeiswyr, maent i gyd wedi bod yn Gymry Gwyn / Prydeinwyr Gwyn ac eithrio 2.

**Mae'r siart isod yn dangos fel canran, lle mae'r IRM yn anghytuno neu'n cytuno ag Argymhelliad gan Asiantaeth.**


2016-17 oedd y flwyddyn gyntaf pan gytunodd yr IRM â phenderfyniad arfaethedig yr asiantaeth ym mhob achos.  Mae un achos sy'n aros i gael ei wrando yn y panel felly gallai hyn newid.




**Mae’r siart isod yn dangos fel canran, lle mae’r Asiantaeth yn anghytuno neu’n cytuno ag argymhelliad yr IRM (unwaith eto mae 1 achos sy’n aros i gael ei wrando)**




Mae’r siart bar isod yn dangos canran yr achosion pan anghytunodd yr IRM â’r QD cychwynnol ac yna cytunodd yr Asiantaeth ag argymhelliad yr IRM.




**Ceisiadau gan bersonau cysylltiedig (perthnasau)**

Nid yw unrhyw geisiadau gan berthnasau wedi dod gerbron yr IRM eleni. Mae nifer y ceisiadau gan berthnasau wedi lleihau bob blwyddyn. Efallai bod hyn am fod asesiadau hyfywdra cynnar mwy dibynadwy ac nid yw asiantaethau yn symud ymlaen â cheisiadau sy'n annhebygol o gael eu cymeradwyo. Mae'n cyd-ddigwydd hefyd â defnydd uwch ar orchmynion gwarchodaeth arbennig sydd efallai'n cael eu hystyried o dan rai amgylchiadau yn fwy priodol na chymeradwyo pobl gysylltiedig fel gofalwyr maeth.

Blwyddyn 1 – 64%
Blwyddyn 2 – 45%
Blwyddyn 3 – 25%
Blwyddyn 4 – 17%
Blwyddyn 5 – 15%
Blwyddyn 6 – 0%

**Arfer Da a nodwyd gan yr IRM**

At ei gilydd roedd y cynrychiolwyr a fynychodd yr IRM ar ran eu hasiantaethau wedi paratoi'n dda a gwnaethant gyflwyniad da gan allu rhoi ymateb clir i'w cwestiynau.

Darparodd asiantaethau'r holl wybodaeth roedd ei hangen ar y panel mewn modd amserol.

**Meysydd i'w datblygu a nodwyd gan yr IRM**

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd rhai ymgeiswyr i'r IRM wedi bod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant yn dilyn honiad. Mae ymateb cymysg o hyd yn nhermau'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i ofalwyr maeth yn ystod yr hyn sydd yn anochel yn broses straenus. Dylai gofalwyr maeth dderbyn cefnogaeth briodol yn ystod cyfnod o'r fath a byddai'n ddefnyddiol petai pob asiantaethau yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin at hyn.

**Adborth i'r IRM**

Ni dderbyniodd yr IRM yr yn gŵyn yn ystod 2015-16

Mae ymgeiswyr i'r IRM, yr asiantaeth sy'n cynnig y dyfarniad o gymhwyster a holl aelodau paneli adolygu Annibynnol yn cael holiaduron i'w cwblhau am ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd gan IRM Cymru. Mae hyn yn cynnwys eu profiad yn y panel adolygu.

Yn gyffredinol roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn o hyd mewn perthynas â'r gwasanaeth er, o safbwynt yr ymgeiswyr, na chafodd yr un y canlyniad roeddent yn gobeithio amdano.

Mae'r dyfyniadau sy'n dilyn yn gynrychioliadol o'r adborth

*Roeddem ni'n teimlo i'n hachos gael ei archwilio'n llawn a gofynnwyd hyd yn oed y cwestiynau anodd yn sensitif a chawsom ein trin gyda pharch. Roeddem ni'n deall pam cafodd rhai cwestiynau penodol eu gofyn ond nid oeddem yn teimlo bod yr un ddiangen. Cawsom ni ddweud popeth roeddem am ei ddweud, ond fel pob tro rydych chi'n ymadael â sefyllfa o'r fath rydych chi'n meddwl am fwy 'y gallem ni fod wedi ei ddweud'. Rhoddwyd yr amser i ni ddweud beth roeddem am ei ddweud yn ogystal ag i ateb cwestiynau.*

*Hoffwn i ddiolch i'r panel am eu parch, eu cwrteisi a'u tosturi yn ystod proses a oedd i ni yn ben draw cyfnod hynod o ofidus yn ein bywydau ni.*

*Cawsom wybodaeth glir am beth allai'r broses ei wneud a beth na allai a pha wybodaeth oedd yn cael ei chaniatáu.*

**Ystyriaethau datblygiadol i'r IRM**

- Bydd yr IRM yn parhau i sicrhau ei fod mewn cysylltiad rheolaidd ag asiantaethau a bod gwybodaeth hygyrch ar gael i ddarpar ymgeiswyr. Bydd yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch yr IRM oddi wrth asiantaethau neu grwpiau gofalwyr maeth.

- Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, bydd adolygiad o waith yr IRM yn digwydd er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Casgliadau**

- Gwelodd 5 mlynedd gyntaf yr IRM nifer cyson o geisiadau i'r IRM. Gwelodd Blwyddyn 6 leihad sylweddol i 5 cais.
- Roedd 4 o'r 5 cais yn ymwneud â bwriad i ddadgofrestru rhieni maeth.
- Roedd 1 o'r ceisiadau yn ymwneud â'r bwriad i beidio â chymeradwyo darpar fabwysiadwr.
- Hon oedd y flwyddyn gyntaf pan na chafwyd yr un cais oddi wrth bersonau cysylltiedig (gofalwyr sy'n berthnasau)
- Daeth yr holl geisiadau a dderbyniwyd o Dde Cymru
- Roedd 1 cais na chafodd ei wrando o fewn yr amserlen. Roedd hynny ar gais yr ymgeisydd er wyn caniatáu mwy o amser iddynt baratoi eu cais a chytunwyd i hynny gyda chaniatâd yr asiantaeth.
- Hon oedd y flwyddyn 1af pan gytunodd y paneli IRM ag argymhellion arfaethedig yr asiantaethau maethu/mabwysiadu ym mhob achos.
- Wrth i'r asiantaeth gynnal newid, ymddiswyddodd rhai aelodau panel. Bu ymarfer recriwtio pwrpasol er mwyn llenwi bylchau penodol. At ei gilydd mae aelodau panel wedi ymrwymo i waith yr IRM o hyd.